# Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021

**2021 dsc 2**

*Atodol*

### 15 Adolygiad: paratoadau ar gyfer cynnal y pôl

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiadau o'r paratoadau ar gyfer cynnal y pôl ar gyfer etholiad 2021.

(2) Rhaid cynnal yr adolygiad cyntaf erbyn 19 Chwefror 2021.

(3) Rhaid cynnal adolygiadau dilynol o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 21 diwrnod hyd at gynnal y pôl ar gyfer etholiad 2021.

(4) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru ddatganiad yn crynhoi canlyniad yr adolygiad a nodi a yw'n rhesymol rhagweld unrhyw oedi i etholiad 2021.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 15 mewn grym ar 17.3.2021, gweler **a. 18**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, Adran 15.